# Adroddiad Arolygu

**Joanna Roberts**

**Dinbych**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 31 Mawrth 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn symud yn rhydd o amgylch y lleoliad a chânt eu hannog i wneud dewisiadau. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Maent yn gwrando ar reolau'r gwarchodwr plant ac yn ymddwyn yn dda. Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda, yn dangos lefelau ymgysylltu da, a chânt gynnig i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu helpu i ddatblygu sgiliau.

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau priodol sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a llesiant. Mae'r arferion glanhau a hylendid yn effeithiol, ac mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhyngweithio'r plant yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac yn ymateb i anghenion y plant. Mae ganddi gydberthynas dda â'r plant a'u teuluoedd. Mae'n darparu amrywiaeth dda o brofiadau chwarae a dysgu sy'n diwallu diddordebau'r plant.

Mae gan y gwarchodwr plant fesurau priodol ar waith i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r amgylchedd yn daclus tu hwnt, yn gartrefol ac yn drefnus. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu teganau glân o ansawdd da ar gyfer y plant. Mae llawer o'r teganau o fewn cyrraedd hawdd ac yn galluogi'r plant i gymryd rhan mewn amrywiaeth o chwarae.

Mae'r trefniadau arwain yn effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn wybodus ac yn gymwys iawn mewn gofal plant. Mae'n gwrando ar adborth adeiladol ac yn gwneud newidiadau cadarnhaol. Ar y cyfan, mae gwaith papur y gwarchodwr plant a'r trefniadau cadw cofnodion yn drefnus iawn ac mae ganddi gydberthnasau cadarnhaol iawn â'r rhieni.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn symud yn rhydd o gwmpas y lleoliad ac yn gwneud digon o benderfyniadau. Maent yn dewis pa deganau y maent am chwarae â nhw a faint o fwyd y maent yn ei fwyta. Ymgynghorir â'r plant oedran ysgol am yr hyn y maent yn ei wisgo, gan eu bod yn newid o'u gwisg ysgol i'w ‘dillad arferol’. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus a gwrandewir ac ymatebir i'w ceisiadau yn briodol.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac maent yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad yn fawr. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymwybodol o arferion y lleoliad sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Er enghraifft, maent yn gwybod bod angen iddynt eistedd ar step wrth y drws ffrynt pan fyddant yn gwisgo eu hesgidiau a'u cotiau, cyn mynd am dro. Mae'r plant yn adnabod y gwarchodwr plant yn dda ac yn teimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol. Mae'r plant yn siarad am eu bore yn yr ysgol yn hapus, yn eistedd ar lin y gwarchodwr plant i gael cwtsh ac yn cynnwys y gwarchodwr plant yn eu chwarae.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Mae'r plant iau yn dechrau cydweithredu gan rannu eu teganau; maent yn dangos arwyddion eu bod yn dechrau meddwl am eraill. Mae plant oedran ysgol yn dangos parch tuag at y bobl a'r cyfarpar, gan ofalu am y cyfarpar ac yn helpu'r plant iau yn reddfol wrth dynnu eu hesgidiau, os byddant yn cael trafferth. Mae'r plant yn gwrando ar reolau'r lleoliad ac yn ymddwyn yn dda.

Mae'r plant yn ymgysylltu'n llawn â'r gweithgareddau sydd ar gael ac yn canolbwyntio'n dda. Maent yn mwynhau arbrofi â thoes, darllen straeon, a chropian drwy'r twnel chwarae gyda'u ffrindiau. Mae wynebau'r plant yn goleuo wrth i'r gwarchodwr plant ymuno â'u chwarae, yn esgus ei bod yn driniwr gwallt, yn gwneud steiliau gwallt, yn cynnig diodydd ac yn casglu arian. Mae'r wên ar wynebau'r plant yn dangos bod ganddynt agweddau cadarnhaol a'u bod yn mwynhau mynd i'r lleoliad. Cadarnhawyd hyn gan y sylwadau y gwnaethom eu darllen yn holiaduron rhieni y lleoliad.

Gall y plant gymryd rhan mewn amrywiaeth dda o brofiadau hunangyfeiriedig sy'n eu galluogi i feithrin amrywiaeth o sgiliau. Maent yn dysgu i ddod yn annibynnol wrth roi eu teganau eu hunain i gadw, rhoi eu hesgidiau i gadw yn y bocs esgidiau pan fyddant yn cyrraedd, ac mae'r rhan fwyaf yn bwydo eu hunain yn dda yn ystod amser bwyd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Roedd y gwarchodwr plant yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a llesiant, ac yn eu rhoi ar waith. Er enghraifft, caiff bwydydd a diodydd cytbwys eu cynnig i'r plant ac mae cyfleoedd da i chwarae yn yr awyr agored ac i gael awyr iach. Caiff arferion glanhau a hylendid eu rhoi ar waith, fel glanhau byrddau cyn ac ar ôl eu defnyddio, a golchi dwylo rheolaidd. Caiff cofnodion damweiniau a digwyddiadau eu cwblhau'n gywir a'u rhannu gyda'r rhieni. Caiff presenoldeb y plant ei gofnodi yn ddiwyd, yn ogystal â chofnodion ymwelwyr â'r lleoliad. Caiff arferion diogelu eu blaenoriaethu, ac mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda iawn o'i chyfrifoldebau i ddiogelu'r plant a'u cadw'n ddiogel

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn ei pholisi rheoli ymddygiad yn gyson ac yn rhoi strategaethau cadarnhaol ar waith. Mae hi'n canmol y plant hŷn pan fyddant yn chwarae'n dda gyda'r plant iau. Mae hi'n dathlu ymdrechion da y plant ac am ddilyn cyfarwyddiadau. Mae'r gwarchodwr plant yn nodi ei disgwyliadau'n glir gan siarad â'r plant yn glir a defnyddio brawddegau byr a chryno. Mae hyn yn galluogi'r plant i wrando, dilyn cyfarwyddiadau'n dda a chynnal tasgau â dealltwriaeth glir. Mae'r gwarchodwr plant yn trin y plant â pharch bob amser ac mae'n fodel rôl dda. Mae amseroedd bwyd yn achlysur cymdeithasol, ac mae'r gwarchodwr plant yn eistedd wrth y bwrdd gyda'r plant. Mae'n eu hannog i siarad am eu diwrnod ac am y bwyd y maent yn ei fwyta.

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol, yn fagwrus, ac yn ofalgar. Yn ystod ein hymweliad cyntaf, roedd ambell achlysur yn y cartref lle nad oedd gan y gwarchodwr plant olwg glir uniongyrchol o'r plant. Fodd bynnag, yn ystod ein hail ymweliad, gwelsom yr aethpwyd i'r afael â'r materion hyn. Mae gan y gwarchodwr plant berthynas hyfryd â'r plant ac mae hi'n eu hadnabod nhw a'u teuluoedd yn dda iawn. Mae hi'n ymateb yn gyflym pan fydd angen cymorth ar y plant, fel eu helpu i wisgo eu hesgidiau, ond mae hi hefyd yn rhoi'r amser iddynt wneud pethau drostynt eu hunain, os byddant yn gallu. Mae'n gwerthfawrogi cefndiroedd cartref y plant ac yn eu hannog i siarad Cymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae'r gwarchodwr plant yn hyderus ac yn gartrefol ac mae ganddi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plentyn. Mae hi'n rhoi amrywiaeth dda o brofiadau chwarae a dysgu i'r plant, sy'n cael eu nodi yn llyfrau llawr y plant a dyddiaduron dyddiol. Er enghraifft, maent yn mynd am dro yn rheolaidd, yn cwrdd â gwarchodwyr plant eraill ac yn ymweld â'r llyfrgell. Caiff gweithgareddau hwyl eu cynllunio sy'n diwallu anghenion unigol y plant, yn datblygu eu sgiliau ac yn gysylltiedig â gwyliau a dydddiadau dathlu drwy gydol y flwyddyn. Mae gan y gwarchodwr plant sawl llun ag anodiadau a manylion am gyflawniadau'r plant. Fodd bynnag, cwblhawyd yr anodiadau hyn yn llai aml yn y 12 mis diwethaf.

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y gwarchodwr plant fesurau priodol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac mae'r drysau a giatiau'r ardd wedi'u cloi. Yn ystod ein hymweliad cyntaf, nid oedd yr asesiadau risg wedi cael eu diweddaru. Fodd bynnag, erbyn ein hail ymweliad, roeddent wedi cael eu hadolygu ac roeddent yn cynnwys mesurau rheoli addas i drafod pob agwedd ar y lleoliad. Gwnaed gwelliannau i'r gegin, fel catshys diogelwch magnetig wedi'u gosod ar gypyrddau/droriau i atal y plant rhag cael gafael ar beth sydd y tu mewn. Nid oedd yr ymarferion tân ar gael ar y diwrnod, ond cawsant eu hanfon atom ar unwaith yn dilyn ein hymweliad cyntaf. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

Yn ystod ein hymweliad cyntaf, roedd tymheredd y cartref yn rhy oer. Ond yn ystod ein hail ymweliad, aethpwyd i'r afael â hyn ac roedd y cartref ar dymheredd priodol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn daclus tu hwnt â lle storio trefnus iawn i gadw'r teganau a'r adnoddau yn daclus. Mae'r holl ardaloedd mewn cyflwr da iawn ac wedi'u haddurno'n dda. Nid oedd yr ardd yn cael ei defnyddio yn ystod ein hymweliadau, ond mae lluniau yn dangos ei bod yn cael ei defnyddio ar ddyddiau mwy cynnes. Mae'r plant yn chwarae o dan y canopi, sy'n creu ardal gysgodol iddynt ac yn eu hamddiffyn rhag golau'r haul. Caiff gwaith y plant ei arddangos yn y gegin, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt gan eu bod yn pwyntio at eu gweithiau celf â balchder yn ystod amser prydau. Mae'r teganau a'r cyfarpar o fewn cyrraedd hawdd i'r plant, mewn bocsys storio ar lefel isel, gyda mwy ar gael mewn cwpwrdd enfawr. Mae'r holl ddodrefn yn briodol ac mewn cyflwr da.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu cyfarpar o ansawdd da, glân, sy'n briodol o ran datblygiad ar gyfer y plant. Maent yn galluogi'r plant i ymgysylltu ag amrywiaeth o chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig cyfarpar y mae wedi rhoi llawer o feddwl iddynt, fel blociau pren hylif ac offer pren gweadog, sy'n hybu chwilfrydedd, dychymyg, ac yn ysgogi'r synhwyrau. Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu dealltwriaeth y plant o'u cymdeithas ehangach ac o ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae'n gwneud hyn drwy ddefnyddio llyfrau a theganau ac yn tynnu sylw at wahaniaethau diwylliannol wrth ddathlu gwyliau.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Da**

Mae'r trefniadau arwain yn effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n galed ac mae ganddi ymdeimlad o ddiben sy'n hybu ac yn cynnal gwelliant ac mae'n sicrhau canlyniadau da i'r plant. Roedd angen rhai mân ddiwygiadau i'r datganiad o ddiben a gwnaeth y gwarchodwr plant hynny cyn i'r adroddiad gael ei ysgrifennu. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r lleoliad yn gywir ac yn rhoi digon o wybodaeth i'r rhieni wneud dewis gwybodus ynghylch a yw'r lleoliad yn addas ar gyfer eu plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n dda ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac fel arfer yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau yn y lleoliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar adborth adeiladol ac yn gwneud newidiadau sy'n gwneud budd cadarnhaol i'r gwasanaeth. Er enghraifft, rhoddir ystyriaeth i'r holl argymhellion o'r arolygiad blaenorol. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ansawdd y gofal a gynigir yn flynyddol. Mae hi hefyd yn ystyried safbwyntiau'r rhieni ac yn cwblhau adolygiad sylfaenol o ansawdd y gofal. Caiff blaenoriaethau'r dyfodol eu nodi sy'n helpu'r lleoliad i symud yn ei flaen.

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac yn gymwys iawn mewn gofal plant. Mae ganddi dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig a thystysgrif hylendid bwyd dilys ac mae ei hyfforddiant diogelu yn gyfredol. Mae hyn yn dangos bod y gwarchodwr plant yn gwerthfawrogi pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus. Gwnaethom drafod sut y bydd angen iddi adnewyddu hyfforddiant diogelu a chymorth cyntaf erbyn diwedd mis Tachwedd 2024 er mwyn diwallu'r gofynion newydd a osodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Ar y cyfan, mae gwaith papur y gwarchodwr plant a'r trefniadau cadw cofnodion yn drefnus iawn. Mae ganddi wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, fel sydd gan bawb yn y cartref sydd dros 16 oed.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni. Mae hi'n rhannu gwybodaeth yn effeithiol drwy negeseua electronig, cylchlythyrau, negeseuon e-bost, dyddiaduron dyddiol a chyfathrebu wyneb yn wyneb. Mae holiaduron a anfonnir gan y gwarchodwr plant yn cynnwys sylwadau cadarnhaol iawn, sy'n dangos bod y rhieni yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gynigir a'r gofal a ddarperir. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r mannau lleol o ddiddordeb i wella profiadau'r plant. Mae hyn yn helpu'r plant i feithrin ymdeimlad o berthyn yn y gymuned.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

R1 Cadw llyfrau llawr y plant yn gyfredol, gan gynnwys sylwadau am ganlyniadau'r plant a'r sgiliau a ddatblygir.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Cadw llyfrau llawr y plant yn gyfredol, gan gynnwys sylwadau am ganlyniadau'r plant a'r sgiliau a ddatblygir. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/12/2023